

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.28 Croesawu gwirfoddolwyr sy'n geiswyr lloches neu'n ffoaduriaid



Gall ceiswyr lloches a ffoaduriaid fod yn wirfoddolwyr ardderchog. Gall eu cymhelliant fod yn uchel i ddysgu sgiliau newydd, neu ddatblygu'r sgiliau sydd ganddynt yn barod, i'w helpu i chwilio am swydd yn y dyfodol. Nid yr unigolyn yn unig sy'n elwa wrth wirfoddoli, gall cynnwys gwirfoddolwyr sy'n geiswyr lloches neu'n ffoaduriaid fod yn bositif dros ben i'ch mudiad hefyd.

Mae'r [ffilm fer](#) hon yn rhoi enghraifft bositif o fod â thîm cymysg o wirfoddolwyr gan siop Lyfrau a Cherddoriaeth Oxfam yn Abertawe.

Ym mis Ionawr 2017, casglodd [Abertawe Dinas Noddfa](#) fudiadau lleol at ei gilydd sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn eu gwaith, a hynny gan gynnwys rhai sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid, i drafod y buddion a'r pryderon a dysgu gwersi oddi wrth ei gilydd. Mae'r arweiniad hwn wedi'i seilio ar brofiad y mudiadau hyn, gan weithio ochr yn ochr â Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe.

Pwy yw pwy? Diffiniadau

Ceisiwr lloches – rhywun sydd yn y wlad yn gyfreithlon, sydd wedi ymgeisio am loches, ac sy'n aros i'r Swyddfa Gartref benderfynu canlyniad ei gais. Mae'r mwyafrif helaeth o geiswyr lloches yn y Deyrnas Unedig wedi'u gwahardd rhag ceisio am gyflogaeth, ond mae ganddynt hawl gyfreithiol i wirfoddoli. Gall ceiswyr lloches gael at gasgliad amgen o fudd-daliadau, o'r enw Cymorth Lloches.

Ffoadur – rhywun y mae ei gais am loches wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref. Mae ffoaduriaid yn cael aros yn y wlad gan eu bod wedi profi y byddent yn wynebu erledigaeth gartref. Mae ganddynt hawl gyfreithiol i weithio a'r hawl i geisio am fudd-daliadau lles, yn ogystal â'r hawl gyfreithiol i wirfoddoli.

Mae rhai gwirfoddolwyr yn poeni ynghylch y stigma posib ynglŷn â'u statws mewnfudo, gan ofni cael eu labelu fel 'y ceisiwr lloches' neu 'y ffoadur'. Mae eraill am i'r mudiad maent yn gwirfoddoli iddo wybod a deall eu statws mewnfudo gan y gallai fod arnynt angen cymorth ychwanegol, neu bolisiau sydd wedi'u haddasu rywfaint.

Argymhellwn i fudiadau gynnwys cwestiwn ar eu ffurflenni recriwtio ynglŷn â statws mewnfudo, ond dylai fod yn gwestiwn opsiynol. Awgrymwn hefyd i chi gadw statws mewnfudo unigolyn yn gyfrinachol yn yr un ffordd ag y byddech yn ei wneud gyda rhywioldeb gwirfoddolwr, er enghraifft. **Arweiniad y Swyddfa Gartref**

Mae'r Swyddfa Gartref wedi lansio [arweiniad newydd](#) yn ddiweddar ynglŷn â chaniatâd i weithio a gwirfoddoli ar gyfer unigolion sy'n ceisio lloches.

Mae'n nodi :

'Gellir gwirfoddoli unrhyw adeg yn y broses ceisio lloches ond rhaid i weithgareddau o'r fath beidio ag amharu â digwyddiadau sydd wedi'u trefnu megis cyfweiliad lloches, digwyddiad adrodd rheolaidd neu gyfweiliad ailddogfennu. Nid ad-drefnir y digwyddiadau hyn er mwyn gwirfoddoli. Bydd angen i fudiadau sy'n cynnig cyfleoedd o'r fath ganiatáu peth hyblygrwydd fel y gall gwirfoddolwyr fynd i gyfweiliadau neu apwyntiadau o amgylch eu hamser gwirfoddoli. Rhaid i gyfleoedd gwirfoddoli hefyd beidio â thanseilio'r broses o symud yn effeithiol y rheini nad oes angen eu gwarchod ac nad ydynt yn gymwys i aros yn y DU ar unrhyw sail arall.

Gall ceiswyr lloches wirfoddoli tra mae eu cais yn cael ei ystyried, heb gael caniatâd i weithio.

Polisi'r Swyddfa Gartref yw cefnogi ceiswyr lloches sy'n gwirfoddoli i elusennau neu fudiadau yn y sector cyhoeddus. Serch hynny, rhaid i hyn beidio â bod fel 'cyflogai' neu 'weithiwr' a chyfrifoldeb yr unigolyn a'r mudiad mae'n gwirfoddoli iddo yw sicrhau nad yw gweithgaredd o'r fath yn golygu eu bod yn gweithio gan dorri'r amodau.

Dylai'r mudiad hefyd gynnal pob gwiriad diogelu perthnasol angenrheidiol. Ni all unrhyw fanylion personol a ddarperir gan yr hawlydd fel rhan o'r broses fewnfudo gael eu cadarnhau gan y Swyddfa Gartref i'w defnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall heblaw am faterion mewnfudo.

I grynhoi, y prif wahaniaeth yw bod yn rhaid i wirfoddoli beidio â bod yn gyfystyr â gwaith di-dâl, na chymryd lle swydd. Yn benodol:

- ni ddylid gwneud unrhyw daliad, heblaw am gostau teithio a bwyd rhesymol y mae'r gwirfoddolwr wedi mynd iddynt (nid lwfans at yr un diben)
- ni ddylai yna fod rhwymedigaethau contractiol ar y gwirfoddolwr ac ni ddylai fod ganddynt unrhyw hawliau contractiol i unrhyw waith na budd-daliadau
- mae'r gwirfoddolwr yn helpu mudiad gwirfoddol neu elusennol cofrestredig, mudiad sy'n codi arian dros un o'r rhain, neu fudiad yn y sector cyhoeddus
- ni ddylai gwirfoddoli gymryd lle cyflogaeth, hynny yw, llenwi rôl y byddai gweithiwr cyflogedig fel arfer yn ei gwneud'

Yn gysylltiedig â'r arweiniad

Mae'r canllawiau yn cyd-fynd â'r diffiniad o wirfoddoli a ddefnyddir ym [mholisi gwirfoddoli Llywodraeth Cymru](#), (Awst 2015):

Mae gwirfoddoli'n weithgarwch:

- sy'n cael ei gyflawni'n rhydd, o ddewis
- sy'n cael ei gyflawni er budd i'r cyhoedd/y gymuned
- nad yw'n cael ei gyflawni er mantais ariannol

Argymhellir i bob ceisiwr lloches sy'n gwneud unrhyw wirfoddoli roi gwybod i'w Gweithiwr Achos yn y Swyddfa Gartref a'u cyfreithiwr eu bod wedi dechrau gwirfoddoli. Gallai'r wybodaeth yma fod o gymorth i'w cais am loches. Yn yr un modd, i ffoaduriaid sy'n cael budd-daliadau lles fel Lwfans Ceisio Gwaith, mae'n bwysig bod eu pwynt cyswllt yn y ganolfan waith yn gwybod am unrhyw wirfoddoli maent yn ei wneud.

Gwylwch eich iaith – 'gwirfoddoli' ac nid 'gwaith gwirfoddol'

Mae'n hanfodol bod cydlynwyr gwirfoddolwyr sy'n goruchwyllo gwirfoddolwyr sy'n ceisio lloches yn ymwybodol o'r pwysigrwydd y gall iaith fod. Dylech bob amser ddefnyddio'r term 'gwirfoddoli' ac nid 'gwaith gwirfoddol'. I unigolion sydd efallai'n dysgu Cymraeg neu Saesneg, gall fod yn haws cofio'r term 'gwaith gwirfoddoli' o'i gymharu â 'gwirfoddoli'. Ond, gallai defnyddio'r term hwn i ddisgrifio 'gwirfoddoli' beryglu cais unigolyn am loches neu ei gymorth lloches.

Rheoli gwirfoddolwyr: cynnig cymorth priodol

Nid yw ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn grŵp unffurf o unigolion. Yn wir, un o'r nodweddion prin sy'n uno'r grŵp hwn o unigolion yw'r ffaith eu bod wedi wynebu erledigaeth, ac o bosib wedi'u harteithio yn eu mamwlad, gan eu gorfodi i ffoi.

O ganlyniad i'r profiadau hyn, gallai unigolion sy'n ceisio lloches fod wedi'u trawmateiddio. Gallai pethau eraill ychwanegu at unrhyw drawma o'r fath, megis unigedd, rhwystrau iaith, bod i ffwrdd o'u teulu a chael eu gadael rhwng dwy stôl nes canlyniad eu cais am loches.

Mae'n bwysig bod cydlynwyr gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r materion lluosog a chymhleth sy'n effeithio ar bobl sy'n ceisio noddfa, a'u bod yn canfod cymorth priodol pe bai angen hynny er mwyn i unigolyn allu gwirfoddoli.

Fel mudiad, nid yw Abertawe Dinas Noddfa yn gofyn am y rheswm pam mae pobl wedi gorfod ffoi o'u mamwlad. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar y cyfnod ar ôl iddynt gyrraedd y DU a dyhead unigolyn i wirfoddoli yn ei gymuned newydd. Argymhellir i eraill wneud hyn hefyd.

Bydd rhai unigolion yn dewis datgelu gwybodaeth ynglŷn â'u profiadau blaenorol a'r rhesymau pam maent wedi gorfod ffoi o'u mamwlad. Gallai hyn fod yn brofiad buddiol i rywun, ac yn y sefyllfa hon, awgrymw'n i chi fel cydlynnydd gwirfoddolwyr wrando a rhoi'r cyfle i'r gwirfoddolwr siarad. Mae'n bwysig bod gan fudiadau drefniadau cymorth digonol (mewnol neu allanol) ar gyfer eu cydlynwyr gwirfoddolwyr a allai glywed am brofiadau trawmatig a phoenus.

Er gwaethaf y materion hyn, sy'n aml yn rhai cymhleth, yn effeithio ar bobl sy'n ceisio noddfa, mae llawer o unigolion yn dangos gwytnwch rhyfeddol, unwaith y maent i ffwrdd o'r bygythiad roeddynt yn ei wynebu. Mae'n arwydd positif os oes unigolyn wedi mynd ati i gysylltu â mudiad er mwyn gwirfoddoli.

Rolau

Cofiwch bwysigrwydd bod ag amrywiaeth o rolau er mwyn cwmpasu setiau sgiliau a chymhellion gwirfoddolwyr, a chofiwch gadw at bolisiau diogelu a pholisiau sefydliadol. Fel gydag unrhyw gyfle gwirfoddoli mae'n bwysig bod y rôl yn un ystyrlon ac nad yw'n cymryd lle swydd gyflogedig nac yn gyfystyr â llafur di-dâl.

Prosesau recriwtio

Y ffordd orau o wneud **ffurflenni cais** gwirfoddoli yw bod aelod o staff yn eu llenwi gyda'r darpar wirfoddolwr yn bresennol. Mae hyn yn caniatáu i'r gwirfoddolwyr siarad amdanynt eu hunain heb boeni am sillafu nac iaith. Mae'n gyfle posib i'r cydlynnydd gael rhagor o wybodaeth a dealltwriaeth.

Gall **geirdaon** fod o gymorth i wirio a yw rhywun yn addas, ond i bobl sy'n newydd i'r ardal gall fod yn anodd dod o hyd i rywun i ofyn am eirda. A all eich mudiad ddefnyddio ffyrdd eraill o asesu a yw rhywun addas e.e. cyfnod cysgodi hirach, rhaglen hyfforddi wedi'i hasesu? Gofynnwch y cwestiwn "a oes wir angen i wirfoddolwyr ddarparu geirda ar gyfer y rôl hon?"

A yw'ch hyfforddiant **cynefino** mewn rhywle hawdd ei gyrraedd i rywun sy'n newydd i'r ardal, ac sydd efallai heb arian i ddal bws ar y diwrnod hwnnw? A ddarperir hyfforddiant cynefino gwirfoddolwyr mewn ffordd sy'n ddealladwy i bobl sydd heb y Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith gyntaf?

A oes gan eich staff hyfforddiant a dealltwriaeth ddigonol o faterion cysylltiedig â cheiswyr lloches a ffoaduriaid, i sicrhau'ch bod yn rhoi croeso iddynt?

Goruchwylio

- Dylech ganiatáu amser mewn sesiynau goruchwylio i holi am bob un o'ch gwirfoddolwyr. Bydd hyn yn eich galluogi i gynnig cymorth ychwanegol os oes angen.
- Efallai yr hoffech rannu map/rhestr o wasanaethau cymorth . Mae'n debygol y bydd gan unrhyw 'ardal wasgaru' wasanaethau amrywiol ar gael yn lleol, felly gallwch gyfeirio unigolion at y rhain.

Meithrin sgiliau a chael cydnabyddiaeth

Dylech fod yn glir (a gellid cynnwys hyn yn y polisi gwirfoddoli) am ba hyd y dylai rhywun wirfoddoli (misoedd, oriau) er mwyn cael geirda neu lythyr o gefnogaeth. Mae enghraifft o [lythyr o gefnogaeth](#) a gynigiwyd gan Abertawe Dinas Noddfa ar gael yn Atodiad 1.

Ad-dalu treuliau:

Yn ôl ffigyrau sy'n gywir ar hyn o bryd, sef Mai 2017, mae ceiswyr lloches yn y DU yn goroesi ar **uchafswm** lwfans ariannol o **£36.95** y pen yr wythnos, sy'n gyfwerth â **£5.28** y dydd. Mae Abertawe Dinas Noddfa wedi ymrwymo i ad-dalu costau teithio a bwyd **ar y diwrnod**, i wirfoddolwyr. Gall cost teithio fod yn uchel o'i chymharu â'r lwfans ariannol dyddiol y mae ceiswyr lloches yn ei gael, ac os na all unigolyn gael yr ad-daliad o'r treuliau hyn ar y diwrnod, yna gall cyfle gwirfoddoli fod y tu hwnt i'w cyrraedd i bob pwrpas.

Dylai llyfrau a chofnodion cyfrifyddu elusen gofrestrdig fod wedi'u dylunio yn unol â gofynion adrodd y Comisiwn Elusennau yn ogystal ag unrhyw ofynion deddfwriaethol ariannol eraill a benderfynir gan y cyrff llywodraethu priodol.

Yr arfer 'rheol aur' yw na fydd mudiad yn ad-dalu nac yn gwneud taliad mewn perthynas ag unrhyw ymrwymiad na threuliau onid oes anfoneb/derbynneb wreiddiol i gefnogi'r taliad. Mae hyn yn rhoi'r tryloywder mwyaf posib a thrywydd archwilio clir. Yn achlysurol, efallai na all gwirfoddolwyr ddarparu derbynneb wreiddiol (e.e. tocyn bws drwy'r dydd) i gael ad-daliad ar ddiwrnod y digwyddiad gwirfoddoli gan fod angen iddynt ddal gafael ar y tocyn er mwyn teithio'n ôl adref.

Dan amgylchiadau o'r fath, mae sawl opsiwn:

(a) Os yw'r gwirfoddolwr yn mynychu sesiynau gwirfoddoli rheolaidd (e.e. unwaith yr wythnos, yna gellid ei ad-dalu (ar sail dreigl) wythnos yn ddiweddarach. Bydd y system hon yn sicrhau bod derbynebau gwreiddiol bob amser ar gael ac mae'n ddelfrydol er mwyn gallu paru derbynebau ag ad-daliadau. I'r mwyafrif o geiswyr lloches, fodd bynnag, bydd ad-daliad yn ddiweddarach yn rhoi straen afresymol ar eu sefyllfa ariannol – gweler isod.

(b) Os nad oes gan y gwirfoddolwr arian sbâr o gwbl ac rydych yn gwybod pris y gwariant (e.e. tocyn bws drwy'r dydd), yna gellid rhoi'r arian ymlaen llaw ar yr amod yr anfonir y tocyn/derbynneb wreiddiol i'r elusen yn nes ymlaen. Yn ymarferol serch hynny, bydd y baich ar yr aelod o staff i fynd ar ôl gwirfoddolwyr i ofyn am docynnau sydd eisoes wedi'u had-dalu. Gallai hyn yn y pen draw gymryd llawer iawn o amser ac mae'n ddigon posib y gall arwain at anfonebau/derbynebau coll yng nghofnodion ariannol yr elusen os na chyflwynir y rhai gwreiddiol fel yr addawyd.

(c) Bydd rhai mudiadau'n derbyn ffotograff o'r tocyn fel prawf o'r gwariant. Tra mae hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod yr arian yn wir wedi'i wario gan y gwirfoddolwr, nid yw'n sicrhau nad yw'r tocyn yn cael ei adennill o ffynhonnell arall, neu'n cael ei hawlio fwy nag unwaith gan eich mudiad. I osgoi dyblygu ad-daliadau treuliau, dylid cadw cofnodion manwl gywir. Trwy gyfeirio'n ôl at ffeiliau sydd â derbynebau o ad-daliadau arian parod ar gyfer treuliau gwirfoddolwyr, gellir osgoi dyblygu taliadau gan y mudiad.

Awgrymir i chi drafod y mater â'ch swyddog cyllid i ganfod system ymarferol sydd hefyd yn cydymffurfio â gofynion archwilio'ch mudiad.

Gweler [Atodiad 2](#) i gael templed o ffurflen arian parod gan Abertawe Dinas Noddfa.

Mae ad-dalu mân dreuliau gwirfoddolwyr yn cael ei gydnabod yn eang fel arfer da. Serch hynny, mae ad-dalu treuliau gwirfoddolwyr sy'n ceisio noddfa yn hanfodol.

Beth os yw fy mudiad yn ad-dalu treuliau yn wythnosol neu'n fisol?

Os yw'ch mudiad fel arfer yn ad-dalu treuliau yn wythnosol neu'n fisol, mae'n ddigon posib y bydd hyn yn rhwystr ychwanegol i unigolion sy'n geiswyr lloches, ac eraill ar incwm isel. Awgrymwn i fudiad weithredu system arian mân er mwyn ad-dalu unigolion sydd ar incwm isel ac a fyddai'n ei chael yn anodd yn ariannol pe bai'n rhaid iddynt aros tan ddiwedd yr wythnos, neu'r mis i gael eu had-dalu.

Beth os yw fy mudiad yn ad-dalu treuliau drwy drosglwyddiad banc neu siec?

Os yw'ch mudiad fel arfer yn ad-dalu treuliau drwy drosglwyddiad banc neu siec, mae'n ddigon posib y bydd hyn yn rhwystr ychwanegol i unigolion sy'n ceisio lloches. Awgrymir i fudiad weithredu system arian mân er mwyn ad-dalu unigolion sydd ar incwm isel ac a fyddai'n ei chael yn anodd yn ariannol pe bai'n rhaid iddynt aros tan ddiwedd yr wythnos, neu'r mis.

'Rydym yn ad-dalu treuliau gwirfoddolwyr sy'n geiswyr lloches drwy arian mân ac yn darparu cymorth emosïynol os oes angen. Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr i gyd yn gefnogol iawn o geiswyr lloches. Rydym yn darparu cwrs hyfforddi tridiau i bob gwirfoddolwr.'

Toula Karageorgis, Cydlynnydd Gwirfoddolwyr, Y Groes Goch Brydeinig.

Gwiriadau DBS

Ar gyfer rhai cyfleoedd gwirfoddoli bydd angen gwiriad DBS ac ni fydd ffordd o'i osgoi. Gall y cyfleoedd hyn fod yn anos i unigolyn sy'n ceisio lloches gymryd rhan ynddynt. Mae'n debygol y bydd gwiriad DBS i unigolyn sy'n ceisio lloches yn cymryd mwy o amser i'w gwblhau. Mae'n bwysig egluro hyn i ddarpar wirfoddolwyr ac mae'n bwysig bod eich mudiad yn ymwybodol ohono.

I gynnal gwiriad DBS bydd angen dogfennau adnabod amrywiol, ac mae'n ddigon posib na fydd gan lawer o geiswyr lloches y dogfennau hyn. Mae'n bosib gwneud gwiriad DBS drwy'r opsiwn 'Llwybr 4', lle cymerir olion bysedd y gwirfoddolwr unigol, er mwyn bodloni'r meini prawf. Ond, i rai pobl sy'n ceisio lloches, gall y broses cymryd olion bysedd fod yn drawmatig. Os gwneir hyn, byddwch yn barod i gynnig cymorth ychwanegol, os yw'r gwirfoddolwr yn gofyn amdano, gan fynd gyda'r unigolyn os oes angen. Bydd y gwaith o gymryd olion bysedd yn cael ei wneud mewn gorsaf heddlu.

'Dwi'n cefnogi ceiswyr lloches i wirfoddoli drwy eu cynnwys yn fy nhîm gweinyddol sy'n golygu nad oes amynt angen gwiriad DBS. Dwi wedi gwneud gwiriad DBS drwy lwybr 4 gyda cheisiwr lloches ond fe gymerodd tua wyth mis i ddod yn ôl ac erbyn hynny roedd yr unigolyn wedi symud ymlaen. Fe fyddwn i'n gwneud hyn eto pe bae gennym gyfleoedd ym maes byw'n annibynnol a bwrw bod y gwirfoddolwr yn hapus i fynd i'r orsaf heddlu ac fe fyddwn i'n ei gefnogi drwy'r broses gan ei bod yn drawmatig iawn'.

Toula Karageorgis, Cydlynnydd
Gwirfoddolwyr, Y Groes Goch Brydeinig

Mae tuedd wedi bod i ddim ond cynnig cyfleoedd gwirfoddoli nad oes angen gwiriad DBS ar eu cyfer i geiswyr lloches ac unigolion eraill sydd heb y dogfennau perthnasol. Opsiwn arall yw annog rhagor o unigolion i ymgymryd â'r mathau hyn o gyfleoedd gwirfoddoli, gyda chymorth ychwanegol gan gydlynwyr gwirfoddolwyr. Mae rhai mudiadau sy'n cefnogi gwirfoddolwyr sy'n ceisio lloches yn awgrymu, pe bai'r opsiwn 'Llwybr 4' yn cael ei ddefnyddio'n amlach, yna daw'n arfer mwy cyffredin a bydd staff yn fwy cyfarwydd a hyderus i'w ddefnyddio a'i gefnogi.

Os daw'r ceisiwr lloches o un o'r gwledydd a restrir ar [wefan y DBS](#) gall fod yn bosib cael 'tystysgrif ymddygiad da' o'u mamwlad, ond bydd yn rhaid i'r unigolyn ymgeisio amdani, ac mae'n debygol y bydd yna ffi, ac efallai y bydd angen cyfieithu'r ddogfen.

Crynodeb

Mae ar lawer o geiswyr lloches eisiau gwirfoddoli i ddysgu mwy am eu cymuned newydd, ymarfer eu Cymraeg neu eu Saesneg a defnyddio'r sgiliau sydd ganddynt yn barod neu ddatblygu rhai newydd. Gall gwirfoddoli gynnig cyfle i gwrdd â phobl newydd a llenwi'ch amser mewn ffordd ystyrlon tra na allwch weithio. I ffoaduriaid, gall gwirfoddoli hefyd ddarparu geirda cyfoes sy'n deillio o'r DU, a all fod o gymorth wrth ymgeisio am swydd mewn hinsawdd hynod o gystadleuol.

'Roeddwn mewn gwaith cyflogedig am dros 20 mlynedd nôl adre. Ond mae'r gwirfoddoli yn golygu mwy i mi nag y mae'r gwaith cyflogedig erioed wedi. Dwi'n cael heddwch wrth wirfoddoli gan ei fod yn fy helpu i anghofio am fy nhrafferthion fy hun.'

Tystiolaeth gan un o Wirfoddolwyr Hyrwyddo Noddfa Abertawe Dinas Noddfa

Mae'r awgrymiadau yn y daflen wybodaeth hon yn berthnasol wrth reoli pob gwirfoddolwr, ni waeth beth fo'i statws mewnfudo.

Rhagor o wybodaeth:

[Dinas Noddfa, Abertawe](#)

[DPIA \(Alltudion ar Waith\)](#)

[EYST \(Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig\)](#)

[Cyngor Ffoaduriaid Cymru](#)

[Eich Canolfan Wirfoddoli leol](#)

Mae Canolfan Wirfoddoli Sheffield wedi cynhyrchu [canllawiau ar DBS ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches](#)

Atodiad 1

Cyfeiriad
Dyddiad

I bwy bynnag a fynno wybod,

Rydym yn ysgrifennu i gadarnhau bod [*nodi enw'r gwirfoddolwr*] wedi gwirfoddoli gyda [*enw'r mudiad*] rhwng [*nodi'r dyddiadau*]. Enghraifft: Fel [*teitl y rôl wirfoddol*] aeth ef/hi ar hyfforddiant cynefino, mynychodd sesiynau cymorth rheolaidd a bu'n gaffaeliad i'n prosiect. Defnyddiodd y sgiliau yr oedd ganddo/ganddi yn barod i addysgu pobl am wirioneddau bywyd fel rhywun sy'n ceisio noddfa ym Mhrydain. Mynychodd bob sesiwn hyfforddi a oedd ar gael iddo/iddi ac mae ef/hi wedi defnyddio'r adborth a roddwyd i wella ei sgiliau hyfforddi a chyflwyno. Mae ef/hi bob amser yn fodlon cefnogi aelodau o'r gynulleidfa i gael y gorau o'r hyfforddiant y mae'n ei ddarparu.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech ragor o wybodaeth,

Diolch yn fawr,
[*Aelod o staff*]

Atodiad 2

TEMPLED FFURFLEN ARIAN PAROD

Cadarnhad o ad-daliad

Cadarnhaf fy mod wedi cael (nodi'r swm): £_____

Mewn arian parod gan (nodi enw'r aelod o staff):

ar (nodi'r dyddiad):

Mewn perthynas â (nodi manylion y gweithgaredd gwirfoddoli):

Enw'r gwirfoddolwr a ad-dalwyd:

Cyfeiriad:

Llofnod y gwirfoddolwr a ad-dalwyd _____

Tocyn gwreiddiol wedi'i weld:

Llun o'r tocyn wedi'i atodi:

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd
23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB
Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626 ymholiadau@mantellgwynedd.com
Ffacs: 01286 678430 www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 16/06/2017



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk